# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

**RHAN 1**

RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT

*Cofrestru*

VALID FROM 23/11/2015

**17 Dirymu cofrestriad**

(1) Caiff awdurdod trwyddedu ddirymu cofrestriad unrhyw landlord—

(a) sy’n darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn cais o dan adran 15 neu wrth hysbysu am newid o dan adran 16;

(b) sy’n torri adran 16;

(c) sy’n methu â thalu unrhyw ffi bellach sy’n cael ei chodi o dan adran 15.

(2) Cyn dirymu cofrestriad landlord rhaid i awdurdod trwyddedu—

(a) hysbysu’r landlord am ei fwriad i ddirymu’r cofrestriad a’r rhesymau dros hynny, a

(b) ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan y landlord cyn diwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy’n dechrau ar y dyddiad yr hysbyswyd y landlord.

(3) Ar ôl dirymu cofrestriad landlord rhaid i awdurdod trwyddedu hysbysu’r landlord—

(a) am y dirymiad a’r rhesymau dros wneud hynny;

(b) am hawl y landlord i apelio.

(4) Caiff person y dirymir ei gofrestriad apelio yn erbyn y penderfyniad i dribiwnlys eiddo preswyl.

(5) Mewn perthynas ag apêl—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2014. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 17. (See end of Document for details)*

(a) rhaid iddo gael ei wneud cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy’n dechrau ar y dyddiad yr hysbyswyd y person am y penderfyniad (y “cyfnod apelio”);

(b) caniateir penderfynu arno gan roi sylw i faterion nad oedd yr awdurdod trwyddedu yn ymwybodol ohonynt.

(6) Caiff y tribiwnlys ganiatáu i apêl gael ei gyflwyno iddo ar ôl diwedd y cyfnod apelio os yw’n fodlon bod rheswm da dros y methiant i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw (ac am unrhyw oedi cyn gofyn am ganiatâd i apelio y tu allan i’r cyfnod hwnnw).

(7) Caiff y tribiwnlys gadarnhau penderfyniad yr awdurdod trwyddedu neu gyfarwyddo’r awdurdod i gofrestru’r landlord.

(8) Mae dirymiad cofrestriad landlord yn cael effaith ar y diwrnod y mae pa un bynnag o’r canlynol yn digwydd gyntaf—

(a) pan nad yw’r landlord yn apelio yn erbyn y penderfyniad i ddirymu’r cofrestriad o fewn y cyfnod apelio, pan ddaw’r cyfnod hwnnw i ben;

(b) pan fo’r landlord yn apelio o fewn y cyfnod apelio ond yn tynnu’r apêl yn ôl yn ddiweddarach, dyddiad ei dynnu’n ôl;

(c) pan fo’r landlord yn apelio o fewn y cyfnod apelio a’r tribiwnlys eiddo preswyl yn cadarnhau penderfyniad yr awdurdod trwyddedu, yn ddarostyngedig i baragraff (d), dyddiad penderfyniad y tribiwnlys;

(d) pan fo’r landlord yn cyflwyno apêl bellach, y dyddiad y mae pob dull o apelio yn erbyn y penderfyniad wedi ei ddisbyddu a phenderfyniad yr awdurdod trwyddedu yn cael ei gadarnhau.

(9) Pan fo cofrestriad landlord yn cael ei ddirymu, rhaid i’r awdurdod trwyddedu—

(a) hysbysu unrhyw berson a gofnodwyd ar y gofrestr fel person a benodwyd gan y landlord i ymgymryd â gwaith gosod neu waith rheoli eiddo ar ran y landlord, a

(b) hysbysu tenantiaid neu feddianwyr eiddo ar rent a gofrestrwyd o dan enw’r landlord.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 17 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2014. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 17.